

LWFANS CYFLOGAETH A CHEFNOGAETH (ESA)



Telir Lwfans Cyflogaeth a Chefnogaeth (Employment Support Allowance - ESA) i bobl y mae eu gallu i weithio wedi'i gyfyngu gan anabledd neu iechyd gwael. I fod yn gymwys ar gyfer ESA mae'n rhaid i chi gael eich asesu o dan asesiad y gallu i weithio. I wneud cais mae'n rhaid i chi fod yn 16 oed neu'n hŷn, a bod yn iau nag oed pensiwn y wladwriaeth. Rhaid i chi hefyd fodloni'r amodau preswyllo a phresenoldeb.

Mae dwy elfen i ESA: ESA ar sail cyfraniadau, ac ESA cysylltiedig ag incwm. Gallech gael y naill o'r elfennau hyn, neu'r ddwy ohonynt, yn dibynnu ar eich amgylchiadau.

Mae ESA ar sail cyfraniadau yn gysylltiedig â'ch cofnod yswiriant gwladol. I fod yn gymwys, rhaid eich bod wedi talu cyfraniadau yswiriant gwladol dros nifer penodol o flynyddoedd. Mae rhai dyfarniadau wedi'u cyfyngu i 12 mis.

ESA cysylltiedig ag incwm yw'r elfen o ESA sy'n destun prawf modd. Mae'n darparu ar gyfer eich costau byw sylfaenol (a rhai eich partner os oes un gyda chi). Gellir ei dalu ar ei ben ei hun, neu fel elfen ychwanegol i'r ESA, ar sail cyfraniadau. Gallai ESA cysylltiedig ag incwm helpu gyda thaliadau llog ar forgais, a rhai costau tai eraill. Ni allwch gael ESA cysylltiedig ag incwm os oes gennych chi (a'ch partner) gyfalaf a chynilon dros £16,000.

Os ydych yn byw mewn ardal lle mae credyd cynhwysol wedi cael ei gyflwyno, a'ch bod yn gymwys i'w hawlio, ni fyddwch yn gallu gwneud hawliad newydd am ESA cysylltiedig ag incwm, bydd yn rhaid i chi hawlio credyd cynhwysol.

Y terfyn ar fudd-daliadau - mae ESA wedi'i gynnwys yn y rhestr o fudd-daliadau y mae'r terfyn ar fudd-daliadau yn gymwys iddynt. Ni fydd y terfyn hwn, sy'n cyfyngu ar gyfanswm y budd-dal wythnosol y gellir ei hawlio, yn gymwys os ydych wedi eich rhoi yn y grŵp cefnogaeth ESA.

Nid yw'r terfyn ar fudd-daliadau o dan gredyd cynhwysol yn berthnasol os ydych chi, neu blentyn yr ydych yn hawlio ar ei gyfer yn derbyn Lwfans Byw Anabledd (Disability Living Allowance - DLA) neu Daliad Annibyniaeth Bersonol (Personal Independence Payment - PIP).

Bydd gofyn i bawb sy'n derbyn budd-dal analluogrwydd, lwfans anabledd difrifol a chymorth incwm a delir ar sail analluogrwydd, i gymryd rhan yn yr asesiad y gallu i weithio ar ryw adeg.

Os gwelir bod eich gallu i weithio wedi'i gyfyngu yn yr ailasesiad hwn, cewch eich symud i ESA. Os gwelir nad yw eich gallu i weithio wedi'i gyfyngu, ac felly nad oes hawl gennych i gael ESA, byddwch yn cael galwad ffôn yn gofyn i chi a ydych am hawlio lwfans ceisio gwaith.

Sylwer os ydych yn 16-19 oed a bod eich rhieni yn hawlio budd-dal plant a chredydau treth i chi, gofynnwch am gyngor cyn hawlio ESA, gan y gallai eich incwm teuluol cyffredinol leihau. Gall myfyrwyr llawn amser gael ESA cysylltiedig ag incwm dim ond os ydynt yn cael DLA neu PIP hefyd.

W: shinecharity.org.uk • E: Wales@shinecharity.org.uk • T: 07789 616416



SHINE – Spina bifida • Hydrocephalus • Information • Networking • Equality
Shine, 42 Park Road, Peterborough, PE1 2UQ
www.shinecharity.org.uk • firstcontact@shinecharity.org.uk • 01733 555988
Registered Charity No. 249338 • VAT number 135 6056 23



Lwfans Cyflogaeth a Chefnogaeth (ESA)



Gall myfyrwyr wneud hawliad am ESA ar sail cyfraniadau os ydynt wedi talu digon o gyfraniadau yswiriant gwladol. Gall myfyrwyr anabl gael mwy o wybodaeth drwy gysylltu â'r Llinell Gymorth i Fyfyrwyr Anabl: 0800 328 5050 neu e-bostio students@disabilityrightsuk.org.

Ceir crynodeb bras o'r lwfans cyflogaeth a chefnogaeth yn yr wybodaeth hon. I gael gwybod mwy ewch i www.disabilityrightsuk.org/employment-and-support-allowance-overview



THE MILLENNIUM STADIUM
CHARITABLE TRUST
YMDIRIEDOLAETH ELUSENNOL
STADIWM Y MILLENIWM

W: shinecharity.org.uk • E: Wales@shinecharity.org.uk • T: 07789 616416



SHINE – Spina bifida • Hydrocephalus • Information • Networking • Equality
Shine, 42 Park Road, Peterborough, PE1 2UQ
www.shinecharity.org.uk • firstcontact@shinecharity.org.uk • 01733 555988
Registered Charity No. 249338 • VAT number 135 6056 23



Printing kindly sponsored by Irwin Mitchell solicitors

